

Dyddiad cyhoeddi **Awst 2013**

Gwybodaeth i'r cyhoedd

Traceostomi gan ddefnyddio tiwb anadlu wedi'i basio o'r tu mewn i'r bibell wynt i'r tu allan i'r gwddf

*Mae arweiniad
Techlechydd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ynghylch pryd
a sut y gellir
defnyddio
triniaethau newydd
mewn arfer clinigol.*

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio'r math hwn o draceostomi yn y GIG. Mae'n egluro'r canllaw (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Gall ymyriad olygu prawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynnig gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth ar gael hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y ddogfen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio traceostomïau yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r ddogfen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 8.

Mewn argyfwng, gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi triniaeth ar unwaith, heb gael eich caniatâd hyddysg, os yw hynny er eich budd chi.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon fel mater o drefn fel opsiwn triniaeth i bobl y mae angen traceostomi arnynt cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- lle bynnag y bo'n bosibl, bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Dim ond gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant priodol â phrofiad o gynnal y driniaeth ddylai ei chynnal am fod angen sgiliau gwahanol o fathau eraill o draceostomi drwy'r croen er mwyn ei gwneud yn ddiogel.

Sylwadau eraill gan NICE

Dywedwyd wrth NICE y gallai'r tiwbiau a ddefnyddir ar gyfer y driniaeth gael eu rhwystro oherwydd eu siâp a safle. Dywedwyd wrtho hefyd nad oedd y driniaeth yn addas i bobl y mae angen traceostomi yn yr hirdymor.

Traceostomi gan ddefnyddio tiwb anadlu wedi'i basio o'r tu mewn i'r bibell wynt i'r tu allan i'r gwddf

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'traceostomi trawslaryngaid'.

Mae 'trawslaryngaid' yn golygu ar draws y laryncs, neu'r blwch llais.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Mae traceostomi yn driniaeth llawfeddygol lle mae'r llawfeddyg yn creu agoriad yn y gwddf i mewn i'r bibell wynt (tracea). Caiff tiwb ei osod i mewn i'r agoriad a'i gysylltu â pheiriant anadlu mecanyddol.

Caiff ei gynnal yn aml ar gleifion mewn unedau gofal dwys er mwyn cadw eu llwybr anadlu ar agor, cael gwared ar hylif o'r llwybr anadlu, a'u helpu i ddod oddi ar y peiriant anadlu mecanyddol yn raddol.

Erbyn hyn, ni chynhelir traceostomïau drwy lawdriniaeth, ond drwy osod nodwydd drwy groen y gwddf i mewn i'r bibell wynt. Gelwir y dulliau hyn yn draceostomïau drwy'r croen. Caiff gwifren dywys ei phasio drwy'r nodwydd, yna defnyddir offerynnau o'r enw 'ymledwyr' i ledur twll ddigon i allu gosod y tiwb traceostomi i mewn i'r bibell wynt.

Yn achos traceostomi trawslaryngaidd, caiff y tiwb ei osod fel arall. Caiff nodwydd a gwifren dywys eu gosod drwy'r croen i mewn i'r bibell wynt o hyd ond yn y driniaeth hon, caiff y wifren dywys ei thynnu am i fyny tuag at y geg a chaiff y tiwb traceostomi ei thynnu o geg y claf, i lawr y gwddw ac allan drwy'r gwddf. Caiff y driniaeth hon ei chynnal fel arfer gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol.

Gall tynnu'r tiwb o'r tu mewn i'r tracea tuag allan arwain at lai o waedu, haint a niwed i'r meinwe o amgylch agoriad y gwddf na thraceostomi llawfeddygol a mathau eraill o draceostomi a gynhelir drwy'r croen. Gall hefyd osgoi niwed i'r bibell wynt.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel a'i bod yn gweithio'n ddigon da i'w defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod hon yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i gael y driniaeth.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael
y driniaeth hon, cael
triniaeth wahanol,
neu beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar wyth astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Yn ôl astudiaeth o 245 o gleifion, mewnosodwyd y tiwb yn llwyddiannus ym mhob claf namyn dau a gafodd draceostomi trawslaryngaid.

Flwyddyn ar ôl y driniaeth, roedd ansawdd bywyd cleifion a gafodd draceostomi trawslaryngaid a thraceostomi llawfeddygol yn debyg mewn astudiaeth o 139 o gleifion (cafodd tua hanner ohonynt un driniaeth a'r hanner arall y llall).

Yn ogystal ag ystyried yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Dywedasant mai'r prif bethau a oedd yn dangos bod y driniaeth wedi gweithio oedd llai o anafiadau, gwaedu a haint na mathau eraill o draceostomi drwy'r croen; bod y clwyf yn edrych yn dderbyniol; ac addasrwydd cleifion nad oedd technegau eraill yn addas iddynt o bosibl (er enghraifft pobl â thyfiannau yn y gwddf).

Risgiau a phroblemau posibl

Collodd un claf lawer iawn o waed chwe diwrnod ar ôl cael traceostomi trawslaryngaid am fod rhydweli wedi'i niweidio. Ar ôl i'r gwaedu gael ei reoli, cafodd y claf draceostomi llawfeddygol.

Nododd dwy astudiaeth niwed i bibellau gwynt cleifion - un mewn un o'r astudiaethau o 100 o gleifion a thri mewn astudiaeth o 470 o gleifion.

Roedd angen traceostomi llawfeddygol ar un claf, roedd angen llawdriniaeth ar un claf i gael y twll wedi'i bwytho a chafodd dau glaf triniaeth laser.

Nododd un astudiaeth lefel isel o ocsigen yn y gwaed mewn tri chlaf allan o 47 a gafodd draceostomi trawslaryngaid yn yr astudiaeth o 100 o gleifion. Roedd hyn oherwydd anawsterau wrth ailosod y tiwb.

Cafodd dau glaf allan o 67 a gafodd draceostomi trawslaryngaid haint yn agoriad y gwddf yn yr astudiaeth o 139 o gleifion.

Tynnwyd y tiwb yn llwyr o'r gwddf yn ddamweiniol yn ystod y driniaeth yn achos naw claf mewn astudiaeth o 145 o gleifion. Mewn astudiaeth arall, cafwyd problemau wrth osod y tiwb mewn 11 o 47 o gleifion, fel y wifren dywys yn torri neu anhawster wrth ei thynnu drwyddo.

Nododd un astudiaeth o 100 o gleifion ar ôl traceostomi trawslaryngaid fod lefelau ocsigen wedi gostwng yn sylweddol - ond nid ar ôl traceostomi confensiynol.

Yn ogystal ag ystyried yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Dywedasant fod problemau posibl yn cynnwys y tiwb yn cael ei osod a'i droi ben i waered neu'n mynd yn ddarnau, anhawster wrth osod y tiwb drwy'r bibell wynt, ysgyfaint yn ymgwmpo neu lwybr anadlu wedi'i rwystro. Dywedasant hefyd y gallai pethau eraill fynd o chwith, mewn theori, gan gynnwys niweidio nerfau yn y gwddf neu niweidio chwarren y thyroid, sydd hefyd yn y gwddf.

Rhagor o wybodaeth am draceostomïau

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

NICE

Mae NICE yn darparu canllawiau a chynghor cenedlaethol i wella iechyd a gofal cymdeithasol. Ysgrifennir canllawiau ymyriadau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn holi barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â 'thracheostomi trawslaryngaid'. Mae'r ddogfen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn guidance.nice.org.uk/HTG317

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r ddogfen hon yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Care Excellence

Level 1A, City Tower, Piccadilly Plaza, Manchester M1 4BT; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8865-5

N2953 August 2013

© National Institute for Health and Care Excellence, 2013. All rights reserved.

This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.